Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# National Star yng Nghymru - Mamhilad

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  29/11/2017**

## Cyd-destun

Agorwyd National Star yng Nghymru - Mamhilad ym Medi 2016. Mae'r coleg yn darparu lleoliadau dydd ar gyfer dysgwyr ag ystod o anawsterau dysgu cymhleth, gan gynnwys anafiadau caffaeledig i'r ymennydd, anableddau corfforol, anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau cyfathrebu. Mae gan y coleg naw dysgwr rhwng 19 a 22 oed ar hyn o bryd.

Mae cwricwlwm y coleg yn cynnig llwybrau dysgu personoledig gyda nodau ar gyfer dysgu a byw yn annibynnol. Cenhadaeth y coleg yw 'galluogi pobl ag anableddau i gyflawni eu potensial trwy wasanaethau dysgu, pontio a chyrchfan personoledig'.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar Ystâd Parc Mamhilad, ger Pont-y-pŵl. Mae'r adeiladau'n cynnwys ystafell ddosbarth gyffredinol ar gyfer dysgu a'r synhwyrau, cegin ar gyfer datblygu medrau coginio a medrau bywyd, ac ystafell therapi.

Mae National Star yng Nghymru - Mamhilad yn rhan o'r National Star Foundation ac yn rhannu swyddogaethau allweddol gyda'r National Star College. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau technegol, rheoli ystadau, adnoddau dynol, rheoli iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad staff, a chymorth ariannol. Mae gan bennaeth gwasanaeth y coleg gyfrifoldeb am wasanaeth darpariaeth ddydd yn Henffordd hefyd. Darperir arweinyddiaeth strategol gyffredinol ar gyfer y coleg gan y National Star College.

Hwn yw ymweliad monitro cyntaf y coleg ers iddo agor.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu tawel a chroesawgar, sy'n hyrwyddo synnwyr o ddiben a lles ar gyfer staff a dysgwyr yn llwyddiannus.

Mae gan y coleg brosesau cadarn i nodi anghenion meddygol a therapiwtig dysgwyr cyn iddynt ddechrau a phan fyddant yn ymuno â'r coleg. Mae tiwtoriaid a hwyluswyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i helpu dysgwyr i oresgyn eu hanawsterau unigol a magu hyder yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

Mae cynllunio tiwtoriaid yn rhoi ystyriaeth effeithiol i anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu'n gynhyrchiol â'u dysgu a gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau.

Mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o ymyriadau arbenigol i fodloni eu hanghenion a'u gofynion. Mae hyn yn cynnwys cymorth rheolaidd gan therapydd iaith a lleferydd, therapydd galwedigaethol ac arbenigwr ymddygiad. Mae darpariaeth y coleg ar gyfer cymorth therapiwtig arbenigol yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd a wna dysgwyr yn y coleg.

Mae'r berthynas â'r National Star College yn rhoi cyfeiriad cryf, gweledigaeth ar y cyd a chymorth hynod effeithiol i'r coleg mewn ystod o swyddogaethau allweddol. Caiff staff gyfleoedd addas i arsylwi a rhannu arfer dda a ffyrdd o weithio. Mae hyn wedi galluogi rheolwyr i sefydlu ac ehangu darpariaeth y coleg mewn cyfnod byr iawn.

Mae'r coleg yn datblygu cysylltiadau defnyddiol â'r gymuned, sy'n gwella'r profiadau dysgu a gynigir. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliad profiad gwaith gyda busnes yn ymgymryd â dyletswyddau swyddfa a chyfleoedd i ddysgwyr werthu eu cynhyrchion yn y farchnad leol. Mae'r profiadau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad cymdeithasol a phersonol dysgwyr.

## Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r wybodaeth a gafwyd gan ddarparwyr blaenorol ac o asesiadau'r coleg ei hun yn darparu gwybodaeth ddigonol am alluoedd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd pan fyddant yn ymuno â'r coleg. Yn ychwanegol, nid yw'r coleg yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau manwl ar waith. Mae'r rhain yn glir ac wedi'u hysgrifennu'n dda. Fodd bynnag, maent yn berthnasol i'r sefydliad cyfan ac nid ydynt yn benodol i anghenion y coleg yng Nghymru.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu prosesau hunanasesu a chynllunio gwelliant.

Er bod gan swyddogion diogelu dynodedig yn y National Star College gyfrifoldeb am National Star yng Nghymru - Mamhilad, nid oes swyddog diogelu dynodedig ar y safle yn barhaol.

## Argymhellion

A1 Gwella asesu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, a chynllunio ar eu cyfer

A2 Gwneud yn siŵr bod swyddog diogelu dynodedig ar y safle yn y coleg bob amser

A3 Datblygu prosesau hunanasesu trylwyr a defnyddio'r rhain i lywio cynllunio gwelliant

A4 Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn benodol i National Star yng Nghymru - Mamhilad

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Hwn yw'r arolygiad monitro blynyddol cyntaf ar gyfer National Star yng Nghymru - Mamhilad. Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | National Star yng Nghymru - Mamhilad |
| **Rhif y coleg** | F0006007 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 28/09/2017 |
| **Perchennog** | National Star Foundation |
| **Staff** | 1 rheolwr gwasanaeth, 1 cydlynydd rhaglenni, 2 diwtor, 6 hwylusydd addysg a gofal (yn cynnwys 3 rhan-amser), 1 therapydd galwedigaethol, 1 ffisiotherapydd, 1 therapydd iaith a lleferydd, 1 arbenigwr ymddygiad (i gyd yn rhan-amser) |
| **Nifer y disgyblion** | 9 (yn cynnwys 1 lleoliad gofal cymdeithasol) |
| **Darpariaeth** | Dydd (36 wythnos) |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anableddau corfforol, anawsterau dysgu, anhwylderau synhwyraidd a chyfathrebu, anableddau dwys a lluosog |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | Rhowch destun |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |